

GlawLif – Brwydro yn erbyn Newid yn yr Hinsawdd

Beth yw'r broblem?

Pan fydd yn bwrw'n drwm mae swm y dŵr sy'n cyrraedd carthffosydd Dŵr Cymru yn broblem. Mae'r broblem yn waeth o achos newid yn yr hinsawdd, ymlediad trefol, a datblygiadau. Mae gormod o ddŵr yn cyrraedd y carthffosydd, a gall achosi llifogydd!

Edrychwch ar y graff Glawiad Rhanbarthol isod, a'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r mm agosaf.

	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Cyfanswm
2015	187	88	97	35	136	59	114	129	72	72	246	335	1570
2016	344	155	117	90	88	140	83	109	145	17	133	88	1509


Atebwch y cwestiynau hyn:

1. Ym mha fis yn 2015 y syrthiodd y swm mwyaf o law?
2. Ym mha fis yn 2016 y syrthiodd y swm mwyaf o law?
3. Faint o law a syrthiodd ym mis Mai 2015?
4. Faint o law a syrthiodd ym mis Tachwedd 2016?
5. Ym mha fisoedd wnaeth hi fwrw mwy yn 2016 nag yn 2015?
6. Pa fis oedd â'r gwahaniaeth lleiaf mewn glawiad?
7. Pa fis oedd â'r gwahaniaeth mwyaf mewn glawiad?
8. Beth oedd y gwahaniaeth yn y glawiad ym mis Chwefror?
9. Beth oedd y gwahaniaeth yn y glawiad ym mis Hydref?
10. Pa flwyddyn oedd y wlypaf?



Nawr, tynnwch y graff.

- Bydd y misoedd yn mynd ar hyd y gwaelod. Cofiwch ei bod yn rhaid i bob bar fod yr un lled, a defnyddiwch god lliw gan eich bod yn plotio am ddwy flynedd.
- Beth fydd teitl eich graff?
- Rhowch ddau label ar eich graff (echelin x ac echelin y)
- Pa raddfa a ddefnyddiwch chi?



Nawr, ysgrifennwch 5 cwestiwn i'ch ffrindiau gael eu hateb.

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.
- 5.